

Ymgynghori â Budd-ddeiliaid – Saltney:

Ysgol Uwchradd St. David's ac Ysgol Gynradd Saltney Ferry

Rhesymau dros Ymgynghori:

1. I newid ystod oedran Ysgol Uwchradd St. Davids o 11-18 i 11-16 o fis Medi 2016.

2. I gyfuno'r ddarpariaeth Gynradd yn Ysgol Gynradd Saltney Ferry â'r ddarpariaeth Uwchradd yn Ysgol Uwchradd St. David's o fis Medi 2015, ac i newid ystod oedran yr Ysgol Uwchradd o 2-16 o fis Medi.

Cwestiynau ac Atebion:

C: A fydd yna unrhyw beryglon yn gysylltiedig â'r cynigion?

A: Nid yw'r cynigion i uno yn creu unrhyw beryglon annatod, ond fe'u bwriedir i gynyddu gwydnwch yr Ysgol Gynradd o ran canlyniadau ar gyfer y plant, ac i gynyddu niferoedd mas critigol yr Ysgol Uwchradd. Mae gan y ddwy ysgol lawer o lefydd gweigion.

C: A oes yna unrhyw ddewisiadau eraill i'w hystyried?

A: Mae'r ddau opsiwn sydd wedi cael eu cynnig i'w ymgynghori yn ymdrin ag elfennau hanfodol o godi safonau, lleihau'r gwaith trwsio a chynnal a chadw sydd yn aros i gael eu gwneud a chynyddu'r canlyniadau i'r plant. Mae diwedd y trefniadau consortiwm ar gyfer darpariaeth ôl-16 yn golygu nad yw gadael pethau fel y maent yn opsiwn ar gyfer yr Ysgol uwchradd, ac mae cael ffyrdd newydd o gael mynediad i addysg academiaidd a galwedigaethol ôl-16 o safon uchel yn hanfodol. Yn bennaf mae hyn drwy'r cyfleuster ôl-16 newydd arfaethedig yng Nghei Connah.

C: A ydi'r cynigion yn effeithio ar y modd y gall yr Ysgolion ddarparu'r cwricwlwm?

A: Bwriad y cynigion ydi gwella safonau, a darparu mynediad i ddarpariaeth ôl-16 pan ddaw'r trefniadau consortiwm cyfredol i ben ar ddiwedd 2016. Ni fyddai yna unrhyw effaith negyddol ar ddarpariaeth y cyfnodau allweddol eraill.

C: A ydi cyfuno'r ddwy ysgol yn golygu cau'r ddarpariaeth?

A: Na. Ni fydd cyfuno Ysgol Gynradd Saltney Ferry ac Ysgol Uwchradd St. David's yn golygu bod y ddarpariaeth yn cau. Y bwriad yw y bydd y ddwy ysgol yn gweithredu fel ag y maent ar hyn o bryd, ond yn defnyddio'r un adeiladau. Bydd y cyfuno'n golygu mai un corff llywodraethu a Phennaeth fydd â chyfrifoldeb gyffredinol dros reoli'r ysgol newydd ag ystod oedran 3-16.

C. A fydd y trefniadau derbyn i ysgolion yn newid oherwydd y cynigion?
Na. Fe fydd y trefniadau derbyn i ysgolion yn parhau i ddilyn Polisi Derbyn Sir y Fflint, fel ag y maent nawr.

C. Beth fydd yr effaith ar staffio yn yr ysgol?
Yr unig newid sylweddol petai'r cyfuno'n digwydd fyddai penodi Pennaeth i oruchwylio'r ysgol newydd. Byddai angen rheolaeth arbenigol ar addysg yn y cyfnodau cynradd ac eilaidd. Ni ragwelir y bydd yna unrhyw newid sylweddol arall a fyddai'n effeithio ar y staff addysgu a chefnogi oherwydd y cynigion sydd wedi'u cyflwyno.

C. A fyddai unrhyw effaith ar y ddarpariaeth Anghenion Addysgol Arbennig yn y naill ysgol neu'r llall?
Ni fydd yna unrhyw newid i'r ddarpariaeth bresennol i ddisgyblion sydd ag anghenion ychwanegol o ganlyniad uniongyrchol i'r cynigion arfaethedig. Serch hynny, fe allai newid yn y ddarpariaeth ddigwydd oherwydd adolygiad gwahanol o ddarpariaeth Anghenion Addysgol Arbennig.

C. A ydi'r cynigion yn debygol o effeithio ar ddarpariaeth mewn Awdurdodau Lleol cyfagos?

A: Mae hyn yn annhebygol.

Rydym wedi ymgynghori ag awdurdodau lleol Cyngor Bwrdeistref Sirol Wrecsam a Gorllewin Sir Gaer a Chaer ynglŷn â'r cynigion arfaethedig.